Polisïau Cynllunio Lleol ar gyfer yr Iaith Gymraeg

Elliw Gwilym Owen
Uwch Swyddog Cynllunio (Polisi)
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Paratoi Cynllun Datblygu Lleol Eryri



Sail Tystiolaeth

- Yr Iaith Gymraeg yn rhan annatod o ffabrig cymdeithasol holl gymunedau Parc Cenedlaethol Eryri.

- Mae'r iaith Gymraeg yn cael ei siarad gan 62% o'r boblogaeth ac mewn rhai cymunedau mae'r iaith yn cael ei siarad gan dros 80%.



Cyfarfod rhanddeiliaid

- Ar ddechrau'r broses
- Bwrdd yr Iaith, Swyddog Iaith Gymraeg Cyngor Gwynedd, Menter Iaith Conwy a Cymdeithas yr Iaith
- Sail tystiolaeth – rhannu data
- Trafod Strategaeth y Cynllun Datblygu
- Mewnbwn am faint datblygiadau a'r angen am Ddatganiad Cymunedol a Ieithyddol ac Asesiadau llawn

Y Weledigaeth…..

Erbyn 2035, bydd Eryri…..

Gyda chymunedau dwyieithog bywiog a chynhwysol……..

a’r amcanion

Hyrwyddo mesurau i annog datblygiadau sy’n cefnogi bywiogrwydd yr iaith Gymraeg ac i ddiogleu cymunedau rhag datblygiadau sy’n anwybyddu effaith ar yr iaith Gymraeg.

Asesiad Effaith Cymunedol a Ieithyddol Cynllun Datblygu Lleol Eryri

- Edrych ar gymunedau mewn modd holistig, yr iaith yn elfen annatod o weithgaredd a bywyd cymuned.

- Methodoleg gynaliadwy - nifer o elfennau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn dylanwadu ar ei gilydd.

Asesiad o effaith debygol y Cynllun Datblygu Lleol ar bum agwedd o fywyd cymunedol:

- Poblogaeth (lefelau a nodweddion y boblogaeth honno)
- Ansawdd bywyd (a thrwy hynny yn darparu'r symbyliad i bobl aros, gadael neu symud I'r gymuned)
- Yr economi (sy'n effeithio ar gyfleoedd gwaith i wahanol grwpiau yn ogystal â chost byw ac yn fwy penodol, cost tai)
- Isadeiledd (ei angen i gynnal y gymuned, yn arbennig ysgolion, gofal iechyd a gwasanaethau hanfodol)
- Bywyd cymdeithasol a diwylliannol y gymuned (a fynegir drwy hyfywedd sefydliadau diwylliannol, yn arbennig y rhai hynny sy'n effeithio ar bobl ifanc)

Polisiau’r Cynllun

- Polisiau tai fforddiadwy – cefnogi datblygiadau priodol sy’n diwallu anghenion tai’r gymuned leol, gan roi ystyriaeth arbenning i dai fforddiadwy ar gyfer pobl leol.

- Economi wledig - annog twf economaidd gynaliadwy trwy gefnogi economi wledig sy’n cynnig cyfle am waith ac yn cynnal cymunedau sy’n ffynnu.

- Cefnogi a chynnal darpariaeth briodol o gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol allweddol .

Polisi Datblygu 18: Yr iaith Gymraeg a ffabrig cymdeithasol a diwylliannol cymunedau

i.	Gefnogi datblygiad sy'n cynnal neu'n gwella integredd yr iaith Gymraeg.
ii.	Gwrthod datblygiad fyddai, oherwydd ei faint, graddfa neu leoliad, yn achosi niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned. Er mwyn gallu gwneud penderfyniadau'n seiliedig ar wybodaeth am geisiadau a allai gael effaith ar ddyfodol yr iaith Gymraeg o fewn cymunedau, bydd yn ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno:
	a) "Datganiad Cymunedol ac leithyddol" i fynd gyda cais cynllunio am ddatblygiad llai. Ystyrir bod datblygiadau llai yn yr achos hwn yn gynigion ar gyfer 5 neu fwy o unedau preswyl ar safle/tir nad yw wedi'i neilltuo yn y cynllun datblygu at ddefnydd preswyl; datblygiad masnachol, diwydiannol neu dwristaidd sy'n ymestyn dros 1000m2 neu fwy; datblygiad syn debygol o arwain at golli cyfleusterau cymunedol neu gyfleoedd cyflogaeth a datblygiad twristiaeth sy'n creu deg neu fwy o unedau gwyliau.
	b) Asesiad mwy manwl ar ffurf "Asesiad Effaith Cymunedol ac leithyddol" i fynd gyda'r cais cynllunio ble fo datblygiadau ar raddfa fwy. Yn yr achos hwn, ystyrir bod datblygiadau mwy yn gynigion sy'n llawer iawn uwch na trothwyon datblygiadau llai ac maent yn debygol o gael eu lleoli ar safleoedd heb eu neilltuo, meddu ar ryw arwyddocâd y tu hwnt i ffin y Parc Cenedlaethol a sydd ddim yn perthyn i bolisiau penodol yn y Cynllun.

Gall arwyddion gael effaith weledol fawr ar gymeriad Eryri, gan gynnwys y cymeriad ieithyddol. Mae arwyddion yn ddull o hyrwyddo diwylliant nodedig Eryri, ac yn gallu cyfrannu'n fawr at y Synnwyr o Le, sydd o bwysigrwydd i hunaniaeth cymunedau unigol yn ogystal â'r diwydiant twristiaeth.

iv.	Annog yr holl arwyddion gan Gyrff Cyhoeddus a gan gwmnïau masnachol a busnes i fod yn ddwyieithog neu yn y Gymraeg yn unig i amddiffyn a hyrwyddo amwynder diwylliannol nodedig y Parc Cenedlaethol.
v.	Annog defnydd o enwau lleoedd Cymraeg ar gyfer datblygiadau newydd ac enwau tai a strydoedd.

Dyraniadau - Safle i'r cefn o Fferm Y Llew Coch, Y Bala

- Dyraniad mwyaf yn y Cynllun gyda photensial ar gyfer 55 uned.
- Yr unig ddosraniad cymysg. Bydd datblygu'r safle yn raddol yn help i gymhathu'r datblygiad newydd o fewn y dref
- Pwysig am ddau brif reswm - mae gan Y Bala ddylanwad Cymreig cryf a thraddodiad a fyddai'n cael ei ddiogelu yn fwy effeithiol trwy gyflwyno datblygiad newydd yn raddol.
- Yn ail gellid taenu'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy yn fwy teg trwy gyfnod y Cynllun i gwrdd a galw'r dyfodol dros gyfnod hirach.

Rhyddhau 30 uned hyd 2016 ac os y'u hadeiladwyd, y 25 uned sy'n weddill hyd 2022

Archwiliad Cyhoeddus i'r Cynllun Datblygu Lleol

- Gwrandawiadau Hydref 2010 – Mawrth 2011
- Adroddiad yr Arolygydd Mai 2011
- Mabwysiadu Gorffennaf 2011



Canllaw Cynllunio Atodol

Cymhariaeth o'r polisiau gyda fersiwn ymgynghorol TAN 20

- Polisïau Cynllun Datblygu Lleol Eryri yn cynnwys llawer mwy o fanylder
- Yr holl bolisïau yn y Cynllun wedi cael eu hasesu yn fanwl
- Siomedig yw cynnwys y ddogfen ymgynghorol TAN 20 gydag ychydig o syniadau gwreiddiol a diffyg cyfarwyddyd.
- Ddim cyfeiriad at bryd mae'r iaith Gymraeg yn elfen bwysig o gyfansoddiad cymdeithas
- TAN 20 yn cynnig bod Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn rhan o'r broses Arfarnu Cynaliadwyedd – ond diffyg cyfarwyddyd ar hyn - gellir colli'r pwyslais angenrheidiol ar yr iaith. Beth fydd canlyniad Arfarniad gwan neu ddiffygiol? Pa fudiad ddylai wirio asesiad gydag elfen ieithyddol gryf?
- Nid oes unrhyw sylw yn cael ei wneud ar sut i asesu ceisiadau cynllunio pe na fyddai Cynllun Datblygu Lleol wedi ei fabwysiadu

Manylion Cyswllt

E-bost: Elliw.Owen@eryri-npa.gov.uk

Ffon: 01766 772248